# Brîff Polisi: Cyfrifiad 2021

## Pwrpas y brîff

Pwrpas y brîff hwn ydy tynnu sylw at gyfansoddiad materol gofalwyr di-dâl yng Nghymru, fel y darganfuwyd gan Gyfrifiad 2021.

Bydd y brîff hwn yn trafod:

- Rhyw
- Oedran
- Dwysedd gofalu
- Amddifadedd
- Cymariaethau â Lloegr
- Cymariaethau gyda Chyfrifiad 2011
- Gwybodaeth ar lefel Byrddau Iechyd Lleol
- Gwybodaeth ar Lefel Awdurdodau Lleol

## Cyd-destun

Cynhaliwyd Cyfrifiad Cenedlaethol 2021 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar 21 Mawrth 2021[1] dan amodau unigryw'r pandemig byd-eang, a ddechreuodd bron i flwyddyn cyn hynny. Mae'r cyfrifiad yn casglu'r gronfa ddata fwyaf am boblogaeth y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Cymru, o gyfnod amser sengl. Yn yr achos hwn, yr 21ain o Fawrth 2021. Dylid nodi bod yr Alban wedi dewis oedi eu cyfrifiad fesul un flwyddyn galendr, felly fe'i cynhaliwyd ar 20 Mawrth 2022[2]. Mae hyn yn golygu na ellir gwneud unrhyw ddata cymharol rhwng Cymru a'r Alban. Cynhaliwyd y cyfrifiad yng Ngogledd Iwerddon ar yr un dyddiad ag yng Nghymru a Lloegr, ond fel yn yr Alban, mae'n cael ei oruchwylio gan asiantaeth wahanol (Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon), felly mae'n bosibl y bydd rhywfaint o anghysondebau bychain yn y data hwn.

Fe allai'r cyfrifiad gael ei gwblhau ar-lein a thrwy'r post, a chafodd ei gwblhau gan 1,347,114 o aelwydydd yng Nghymru[3] .

---

[1] https://census.gov.uk/about-the-census
[2] Ibid
[3] https://www.gov.wales/demography-and-migration-wales-census-2021-html#:~:text=On%20Census%20Day%2C%2021%20March,in%20Wales%20on%20Census%20Day

Mae cwestiwn ynghylch p'un a yw rhywun yn ofalwr di-dâl wedi cael ei gynnwys yn y tri cyfrifiad diwethaf[4] (2001, 2011, 2021), ac mae'r cwestiwn wedi newid yn sylweddol ar bob achlysur. Bydd hyn yn golygu bod yr holl ffigyrau'n gymharol, ond nid yn union yr un fath, fel gyda gwybodaeth draddodiadol arall sydd yn cael ei chasglu gan y cyfrifiad.

Mae gofalwr di-dâl yn cael ei ddiffinio gan Gofalwyr Cymru fel rhywun sy'n darparu cefnogaeth a gofal di-dâl i un neu fwy o bobl am eu bod yn sâl; gydag anabledd; yn fregus; gyda chyflwr iechyd meddwl; â dibyniaeth; neu sy'n hŷn. Gofynnwyd i bobl adnabod eu hunain o fewn y Cyfrifiad gyda'r cwestiwn "Ydych chi'n edrych ar ôl, neu'n rhoi unrhyw gymorth neu gefnogaeth i, unrhyw un oherwydd bod ganddynt gyflyrau neu salwch iechyd corfforol neu iechyd meddwl hirdymor, neu broblemau sydd yn gysylltiedig â henaint? [5] "

Mae'r data a gasglwyd wedi'u cymryd yn bennaf o'r set ddata Gofal di-dâl yn ôl oedran, rhyw ac amddifadedd[6], lle mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Dylid nodi hefyd, bod gan rai data rhyw anghysondebau bach oherwydd bod y data'n cael eu cyflwyno fel gwybodaeth ddeuaidd (gwrywaidd/benywaidd), felly mae'r rhai sy'n disgyn y tu allan i'r diffiniadau hyn wedi'u heithrio gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

# Ffigyrau Tudalennau Blaen i Gymru

Ar draws Cymru, roedd 310,751[7] o bobl yn ystyried eu hunain yn ofalwyr di-dâl yng nghyfrifiad 2021. Mae hyn yn cyfateb â bron i 10.5% o boblogaeth Cymru[8]. Mae hyn yn uwch nag yn Lloegr, lle nododd 8.9% o'r boblogaeth eu bod yn ofalwyr di-dâl [9].

O'r 310,740[10] a wnaeth ystyried eu hunain yn ofalwyr di-dâl, roedd 181,330 yn fenywod a 129,420 yn ddynion. Mae hyn yn golygu bod 58% o'r boblogaeth ofalu yng Nghymru yn

---

[4] https://www.ons.gov.uk/census/planningforcensus2021/questiondevelopment/healthandunpaidcarequestiondevelopmentforcensus2021#:~:text=The%20unpaid%20care%20question%20was,aged%205%20to%2017%20years.
[5] Unpaid care, England and Wales: Census 2021
[6] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/socialcare/datasets/unpaidcarebyagesexanddeprivationwales
[7] Census 2021 - Unpaid care by age, sex and deprivation, Wales
[8] Census 2021 - Unpaid care by age, sex and deprivation, Wales
[9] Census 2021 - Unpaid care by age, sex and deprivation, Wales
[10] Mae'r ffigwr hwn yn cael ei dalgrynnu o gronfa ddata'r cyfrifiad: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandwellbeing/bulletins/unpaidcareenglandandwales/census2021

fenywod, cynnydd o 1% ers 2011[11] . Mae hyn yn dal i fod 1% yn llai nag yn Lloegr, lle mae 59% o ofalwyr yn fenywod.

Yr oedran mwyaf tebygol o fod yn ofalwr di-dâl yw rhwng 55 a 59 oed, fel rhif ffisegol sef 41,255 a hefyd, fel canran o'r boblogaeth gyfan yn y grŵp oedran hwnnw (18.5%). Mae hyn ychydig yn hŷn na degawd yn ôl, pan mai 50 i 54 oed oedd yr oedran mwyaf cyffredin. Mae bron i hanner y gofalu (45%) yng Nghymru yn cael ei ddarparu gan bobl rhwng 45 a 64 oed (139,980 o bobl i gyd)[12].

Mae un o bob pump o fenywod yng Nghymru rhwng 50 a 64 oed yn gofalu am rywun (20% - 50 i 54; 21.9% - 55 i 59; 20.6% - 60 i 64) [13].

Cafodd 8,230 o blant rhwng 5 a 17 oed eu hadnabod fel gofalwyr di-dâl yn y cyfrifiad, gyda 14,325 arall o ofalwyr sy'n oedolion ifanc (18 i 24 oed) hefyd yn cael eu hamlygu. O ystyried maint poblogaeth gymharol y ddau grŵp hyn (462,525 o dan 18 oed o'i gymharu â 259,545 rhwng 18 a 24)[14], mae hyn yn dystiolaeth debygol nad yw cyfran o blant yn cael eu hadnabod fel gofalwyr di-dâl.

Mae dwysedd gofalu wedi cynyddu'n sylweddol yng Nghymru, gyda bron i hanner (45%) yn gofalu am fwy na'r wythnos waith cyfartalog (35 awr), a thros draean (34%) yn gofalu am fwy na 50 awr yr wythnos. Gellir cymharu hyn â dim ond 28% yn gofalu am dros 50 awr ddegawd yn ôl[15].

Unwaith eto, mae hyn yn uwch nag yn Lloegr, lle mai dim ond 41% o ofalwyr sy'n gofalu am dros 35 awr yr wythnos, a 30% yn gofalu am dros 50 awr yr wythnos.

Mae gofalwyr di-dâl bron ddwywaith yn fwy tebygol na'r aelod cyffredin o boblogaeth Cymru o fod mewn tlodi, gydag 20% o ofalwyr yn syrthio o fewn y cwintel mwyaf difreintiedig yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

Mae'r nifer hyn yn cynyddu i bron i chwarter (24%) wrth edrych ar ofalwyr sy'n darparu gofal am fwy na 50 awr yr wythnos. Mae hyn yn effeithio'n anghymesur ar fenywod, gan fod 3 o bob 5 (58%) o ofalwyr di-dâl yn y cwintel tlodi isaf yn fenywod.

---

[11] Mae'r ffigwr hwn yn cael ei dalgrynnu o gronfa ddata'r cyfrifiad: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandwellbeing/bulletins/unpaidcareenglandandwales/census2021
[12] Ibid
[13] Ibid
[14] Ibid
[15] Does dim cymhariaeth uniongyrchol am 35 awr, gan mai dim ond 20 i 49 awr oedd cyfrifiad 2011 yn ei gynnwys. Er hynny, dim ond 43% oedd yn gofalu am fwy nag 20 awr.

# Tueddiadau a data cymharol

## Poblogaeth gyffredinol

Roedd y ffigwr o 310,740 o ofalwyr di-dâl yng Nghymru wedi gostwng 59,490 o gyfrifiad 2011 (370,230) [16] - gostyngiad o 19% mewn termau cymharol. Mae'r canlyniad hwn yn peri syndod, gyda gostyngiad tipyn llai yn nifer y bobl yn ystyried bod ganddynt anabledd yng Nghymru, o 696,000 yn 2011[17] (23.4%) i 670,000 yn 2021[18] (21.1%). Dim ond cwymp cymharol yw hyn o 4%, bron bum gwaith yn llai na'r ffigwr cyfatebol i ofalwyr di-dâl.

Cafodd y gostyngiad mewn niferoedd y gofalwyr di-dâl ei amlygu fel un anarferol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol wrth ryddhau'r data. Tybir y gallai'r gostyngiad mewn niferoedd fod o ganlyniad i'r pandemig[19] - gan fod llai o bobl wedi gallu mynd allan a darparu gofal cyffyrddiad ysgafn neu oherwydd y gyfradd afiachedd uwch yn ystod y cyfnod hwnnw. Fel arall, holwyd hefyd a yw'r newid yn y cwestiwn o "Ydych chi'n gofalu am, neu'n darparu unrhyw gymorth neu gefnogaeth i aelodau o'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill? [20] " i "Ydych chi'n gofalu am, neu'n darparu unrhyw gymorth neu gefnogaeth i, unrhyw un oherwydd bod ganddyn nhw gyflyrau neu salwch iechyd corfforol neu feddyliol tymor hir, neu broblemau'n gysylltiedig â henaint? [21] "efallai wedi cael effaith, gan nad yw pobl yn adnabod eu hunain fel gofalwyr di-dâl.

Mae amcangyfrif faint o bobl nad oedd yn ystyried eu hunain fel gofalwyr di-dâl yn heriol. Mesur priodol fyddai cymryd ymchwil Gofalwyr Cymru, sy'n awgrymu bod 39% o ofalwyr di-dâl yng Nghymru wedi cymryd tair blynedd i gydnabod eu rôl ofalu fel maint coll posib. Byddai hyn yn golygu nad oedd hyd at 121,188 o bobl yn cydnabod eu rôl ofalu ac felly, maen nhw ar goll o'r wybodaeth yn y cyfrifiad hwn. Yn ddiddorol, mae hyn yn mynd â'r ffigwr sy'n agos at y ffigwr a gredwyd yn flaenorol[22] ar gyfer gofalwyr yng Nghymru. Felly, efallai y bydd angen cymryd hyn i ystyriaeth wrth adnabod, i wneud penderfyniadau wrth ddarparu darpariaethau ar gyfer y gymuned o ofalwyr di-dâl.

## Rhyw

---

[16] Census 2011 - Unpaid care by age, sex and deprivation, Wales
[17] Census 2011 - Unpaid care by age, sex and deprivation, Wales
[18] Census 2011 - Unpaid care by age, sex and deprivation, Wales
[19] Unpaid care, England and Wales: Census 2021
[20] Unpaid care, England and Wales: Census 2021
[21] Unpaid care, England and Wales: Census 2021
[22] Census 2011 - Unpaid care by age, sex and deprivation, Wales

Mae'n amlwg o'r holl ystadegau mesuradwy a ddarparwyd gan Gyfrifiad 2021, bod gofal di-dâl yn effeithio'n anghymesur ar fenywod. Mae bron i dri o bob pump (58%) o'r bobl sy'n gofalu yng Nghymru yn fenywod, ac mae menyw yn fwy tebygol o fod yn ofalwr ym mhob grŵp oedran hyd at 75 oed [23].

O'r 310,740 a oedd yn adnabod eu hunain fel gofalwyr, roedd 181,330 yn fenywod a 129,420 yn ddynion. Mae hyn yn golygu bod 58% o'r boblogaeth ofalu yng Nghymru yn fenywod, i fyny 1% ers 2011[24] . Mae hyn yn dal i fod 1% yn llai nag yn Lloegr, lle mae 59% o ofalwyr yn fenywod.

Mae'r gwahaniaeth rhwng y rhywiau ar draws Cymru ar lefel daearyddol yn hynod o gyson â'r graddau cyfartalog o wahaniaeth, yn defnyddio'r ganran wedi'i safoni, sef 3% rhwng y ddau ryw. Dim ond Caerdydd (2.5%) a Chastell-nedd Port Talbot (3.7%) sydd ag anghyfartaledd tu allan i 0.4% o'r cyfartaledd.

Mae hyn yn dangos yn gryf bod disgwyliad diwylliannol i fenywod fod yn ofalwyr, ac mae hyn yn golygu bod angen canolbwyntio ar gyrraedd menywod.

Mae'r bwlch mewn cyfrifoldebau gofal wir yn dod i'r amlwg tua 35 oed, pan fo'r bwlch rhwng gofalwyr benywaidd a gwrywaidd yn cynyddu i dros 5%. Mae'r bwlch hwn yn parhau i gynyddu i apecs o 6.9% yn yr ystod oedran 55-59[25]. Mae hyn ar adeg pan fo un o bob pump o fenywod yng Nghymru rhwng 50 a 64 oed yn gofalu am rywun (20% - 50 i 54; 21.9 55 i 59; 20.6% 60 i 64).

Mae hyn ond yn newid ar ôl 75 oed, pan mae dyn yn fwy tebygol o fod yn ofalwr. Er rhywfaint o syndod, mae'r duedd hon yn parhau tan ar ôl 90 oed, pan ddaw dyn bedair gwaith yn fwy tebygol o fod yn ofalwr na menyw. Mae'r data hyn yn dangos y dylid symud tuag at ddynion efallai wrth ystyried y ddarpariaeth ar gyfer pobl hŷn.

## Oedran

Yr oedran mwyaf tebygol o fod yn ofalwr di-dâl yng Nghymru yw rhwng 55 a 59 oed, fel rhif ffisegol 41,255 ac fel canran o'r boblogaeth yn gyffredinol yn yr oedran hwnnw (18.5%). Mae hyn ychydig yn hŷn na degawd yn ôl, pan mai 50 i 54 oed oedd yr oedran mwyaf cyffredin. Mae bron hanner y gofalu (45%) yng Nghymru yn cael ei ddarparu gan bobl rhwng 45 a 64 oed (139,980 o bobl i gyd).

Yr oedran mwyaf tebygol i fod yn ofalwr fel menyw yw 55 i 59 oed, a 55 i 64 oed fel dyn.

---

[23] Census 2011 - Unpaid care by age, sex and deprivation, Wales
[24] Census 2011 - Unpaid care by age, sex and deprivation, Wales
[25] Census 2011 - Unpaid care by age, sex and deprivation, Wales

Y cynnydd mwyaf yn y tebygolrwydd o fod yn ofalwr yw rhwng 40 a 50 oed, gyda chynnydd o 5% yn y boblogaeth sy'n ofalwyr 50 i 54 oed, o'i gymharu â rhai sy'n 40 i 44 oed (16.9% o 11.9% yn y drefn honno) [26] .

Mae'r boblogaeth fawr o fyfyrwyr yng Nghymru yn cuddio gwir faint gofalu yng Nghymru hefyd. Wrth edrych ar bobl dros 25 oed, mae 12.9% (288,195) yn darparu gofal di-dâl o ryw fath. Gan fod y rhain yn fwy tebygol o fod yn breswylwyr parhaol na'r grwpiau iau, gellid ystyried hyn yn faint sampl mwy cywir o'r boblogaeth ofalu.

Mae canran y boblogaeth sy'n gofalu yn cynyddu hyd yn oed yn fwy wrth edrych ar y prif oedran gweithio, sef rhwng 35 i 64 yng Nghymru. O blith yr is-set hon, mae 15.1% yn darparu rhyw fath o ofal, 1 o bob 7 o gyfanswm y brif boblogaeth sy'n gweithio.

Unwaith eto, mae menywod yn cael eu heffeithio'n sylweddol fwy, gyda 14.6% o fenywod dros 25 oed yn darparu rhyw lefel o ofal a 18%, sef bron i 1 o bob 5 o fenywod oedran gweithio yn profi gofal.

Cafodd 8,230 o blant rhwng 5 a 17 oed eu hadnabod fel gofalwyr di-dâl yn y cyfrifiad, gyda 14,325 o ofalwyr sy'n oedolion ifanc eraill (18 i 24 oed) hefyd yn cael ei amlygu. O ystyried maint poblogaeth gymharol y ddau grŵp hyn (462,525 o dan 18 oed o'i gymharu â 259,545 rhwng 18 a 24 oed) [27], mae hyn yn dystiolaeth debygol nad yw cyfran o blant yn cael eu hadnabod fel gofalwyr di-dâl.

Mae data'r cyfrifiad yn rhoi rhywfaint o ragrybudd hefyd o gyfnod a allai fod yn anodd i'r sector gofalu yng Nghymru mewn tua 20 mlynedd, pan fydd angen cymorth ar y poblogaethau sylweddol o fwy o bobl 50 i 64 oed sydd angen cefnogaeth, gan y genhedlaeth 25 i 40 oed sy'n sylweddol llai. Bydd hyn yn cael sgil-effaith ar wasanaethau ochr yn ochr â gofal di-dâl, a dylid ei ystyried yn y dyfodol agos fel ffactor risg.

## Dwysedd gofalu

Mae dwysedd gofalu wedi cynyddu'n sylweddol yng Nghymru, gyda bron i hanner (45%) yn gofalu am fwy na'r wythnos waith gyffredin (35 awr), a thros draean (34%) yn gofalu am fwy na 50 awr yr wythnos, sy'n cyfateb i 107,000 o bobl yng Nghymru. Mae hyn o'i gymharu â dim ond 28% oedd yn gofalu am dros 50 awr ddegawd yn ôl [28].

---

[26] Census 2011 - Unpaid care by age, sex and deprivation, Wales
[27] Ibid
[28] Does dim cymhariaeth uniongyrchol am 35 awr, gan mai dim ond 20 i 49 awr oedd cyfrifiad 2011 yn ei gynnwys. Er hynny, dim ond 43% oedd yn gofalu dros 20 awr.

Unwaith eto, mae hyn yn uwch nag yn Lloegr, lle mai dim ond 41% o ofalwyr sy'n gofalu am dros 35 awr yr wythnos, a lle mai dim ond 30% sy'n gofalu am dros 50 awr yr wythnos.

Mae'n ymddangos bod dwysedd gofalu yn uwch ar gyfer oedolion iau ac oedolion hŷn yn y drefn honno, gyda 48% o ofalwyr rhwng 25-39 oed yn dweud eu bod yn gofalu am fwy na 35 awr, sy'n gostwng i 37% o bobl rhwng 50 a 59 oed, cyn codi i 61% i bobl rhwng 70 a 79 oed. Mae hyn yn ystadegol arwyddocaol, o ystyried bod y gofalu mwyaf yn cael ei ddarparu gan yr ystod oedran 50 i 59 oed[29] .

Fodd bynnag, mae'n debygol iawn nad yw hyn yn arwydd cywir o ddwysedd y gofal, ond yn fater o adnabod. Byddai hyn yn awgrymu bod angen rôl ofalu fwy dwys ar bobl sydd naill ai'n iau neu'n hŷn cyn cofrestru eu cyfrifoldebau gofalu, o'i gymharu â'r rhai yn y canol.

Syndod ystadegol arall yw y byddai'n ymddangos, o'r dynion sy'n darparu gofal, bod llawer mwy yn darparu 25 neu fwy o oriau o ofal (46%) na menywod (37%)[30] . Mae'n rhaid ystyried y data hwn yn ofalus cyn eu derbyn ar eu gwerth enwol, oherwydd y gyfran sylweddol fwy o fenywod sy'n darparu gofal o'i gymharu â dynion.

Y ddamcaniaeth fwyaf tebygol yw bod hyn yn achos diwylliannol, lle mae disgwyl i fenywod ymgymryd â gofal di-dâl, ond eu bod nhw'n fwy tebygol o nodi eu bod nhw ar lefel is o ddwyster na dynion. Fodd bynnag, mae hon yn wybodaeth hanfodol o ran yr angen am symud yn ddiwylliannol at ystyried bod gofal di-dâl fel tasg i bawb yn fater hawliau menywod, a bod angen cyrraedd mwy o ddynion sy'n debygol o beidio adnabod eu hunain ac sy'n gweithio heb gymorth.

Ynghyd â'r gostyngiad yn y nifer gyffredinol o ofalwyr di-dâl, mae hyn yn awgrymu'n gryf bod mwy o ofal yn cael ei ddarparu gan lai o bobl, gyda'r nifer gyffredinol o 'oriau gofal' sydd yn cael eu darparu gan ofalwyr di-dâl yng Nghymru yn cyfateb i tua 9 miliwn awr [31] yr wythnos neu 450 miliwn o oriau mewn blwyddyn[32]. Mae hyn bron yn union yr un fath â

[29] Mae pobl dan 25 oed wedi'u gwahardd o'r dadansoddiad hwn oherwydd y boblogaeth uchel o fyfyrwyr.
[30] Ystod oedran rhwng 25 a 79
[31] Mae'r amcangyfrifiad yn cael ei gyfrifo gan nifer y gofalwyr sydd yn gofalu am 0-19 awr yr wythnos wedi'i luosi gan y canolbwynt (10), nifer y gofalwyr sydd yn gofalu am 20 – 49 awr yr wythnos wedi'i luosi gan y canolbwynt (35), a nifer y gofalwyr sy'n gofalu am 50 awr yr wythnos ar y pwynt isaf (50) wedi eu hadio gyda'i gilydd = 9,020,625 awr yr wythnos.
[32] Mae'r amcangyfrifiad yn cael ei gyfrifo gan nifer y gofalwyr sydd yn gofalu am 0-19 awr yr wythnos wedi'i luosi gan y canolbwynt (10), nifer y gofalwyr sydd yn gofalu am 20 – 49 awr yr wythnos wedi'i luosi gan y canolbwynt (35), a nifer y gofalwyr sy'n gofalu am 50 awr yr wythnos ar y pwynt isaf (50) wedi eu hadio gyda'i gilydd = 9,020,625 awr yr wythnos.

chyfrifiad 2011[33] . Mae hyn yn cyfateb i bob gofalwr yng Nghymru yn darparu 4 awr yr wythnos yn ychwanegol o ofal y pen (29 awr[34], o'i gymharu â 24.9 yn 2011[35]).

**Amddifadedd**

Mae gofalwyr di-dâl bron ddwywaith yn fwy tebygol na'r aelod cyffredin o boblogaeth Cymru o fod mewn tlodi, gydag 20% o ofalwyr yn syrthio o fewn y cwrteil mwyaf difreintiedig yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

Mae'r nifer hwn yn cynyddu bron i chwarter (24%) wrth edrych ar ofalwyr sy'n darparu gofal am fwy na 50 awr yr wythnos. Mae hyn yn effeithio'n anghymesur ar fenywod, gyda 3 o bob 5 (58%) o ofalwyr di-dâl yn y cwintel tlodi isaf yn fenywod.

Gellir gweld bod cyfanswm y gofal di-dâl a ddarperir yn cyfuno â'r tebygrwydd o fod yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. I'r gwrthwyneb, roedd y rhai yn yr ardaloedd mwyaf breintiedig yn debygol o fod yn darparu'r gofal cyffyrddiad mwyaf ysgafn.

# Ffigyrau Byrddau Iechyd Lleol

Mae'r ffigyrau sydd wedi'u cyfrifo ar gyfer pob bwrdd iechyd yn seiliedig ar y siroedd y mae pob bwrdd yn eu cwmpasu, fel y disgrifir gan ganllawiau Llywodraeth Cymru ar fyrddau ac ymddiriedolaethau[36] iechyd GIG Cymru. Dylid nodi hefyd, nad yw canrannau'n cael eu safoni yn ôl oedran, felly maen nhw rhywfaint yn wahanol i ffigyrau awdurdodau lleol.

Tabl 1

| Bwrdd Iechyd | Nifer y Gofalwyr | Gwrywaidd | Benywaidd | Canran y gofalwyr yn y boblogaeth |
|---|---|---|---|---|
| Aneurin Bevan | 60,415 | 25,335 | 35,090 | 10.9% |
| Betsi Cadwaladr | 66,655 | 27,450 | 39,190 | 10.8% |

[33] Mae'r amcangyfrifiad yn cael ei gyfrifo gan nifer y gofalwyr sydd yn gofalu am 0-19 awr yr wythnos wedi'i luosi gan y canolbwynt (10), nifer y gofalwyr sydd yn gofalu am 20 – 49 awr yr wythnos wedi'i luosi gan y canolbwynt (35), a nifer y gofalwyr sy'n gofalu am 50 awr yr wythnos ar y pwynt isaf (50) wedi eu hadio gyda'i gilydd = 9,020,625 awr yr wythnos.
[34] Mae'r amcangyfrifiad yn cael ei gyfrifo gan nifer y gofalwyr sydd yn gofalu am 0-19 awr yr wythnos wedi'i luosi gan y canolbwynt (10), nifer y gofalwyr sydd yn gofalu am 20 – 49 awr yr wythnos wedi'i luosi gan y canolbwynt (35), a nifer y gofalwyr sy'n gofalu am 50 awr yr wythnos ar y pwynt isaf (50) wedi eu hadio gyda'i gilydd = 9,020,625 awr yr wythnos.
[35] Mae'r amcangyfrifiad yn cael ei gyfrifo gan nifer y gofalwyr sydd yn gofalu am 0-19 awr yr wythnos wedi'i luosi gan y canolbwynt (10), nifer y gofalwyr sydd yn gofalu am 20 – 49 awr yr wythnos wedi'i luosi gan y canolbwynt (35), a nifer y gofalwyr sy'n gofalu am 50 awr yr wythnos ar y pwynt isaf (50) wedi eu hadio gyda'i gilydd = 9,020,625 awr yr wythnos.
[36] https://www.gov.wales/nhs-wales-health-boards-and-trusts

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Caerdydd a’r Fo | 41,935 | 17,280 | 24,620 | 9% |
| Cwm Taf Morgannwg | 46,500 | 19,520 | 26,980 | 11.1% |
| Hywel Dda | 40,520 | 16,985 | 23,545 | 11.1% |
| Powys | 13,465 | 5,595 | 7,865 | 10% |
| Bae Abertawe | 41,280 | 17,215 | 24,055 | 11.4% |

Mae dosbarthu gofal di-dâl yn gymharol gyfartal ar draws pob un o'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru, gyda phoblogaeth gofalwyr pum bwrdd iechyd o fewn 0.6% i'w gilydd.

Y ddau ar yr ymylon ydy Caerdydd a’r Fro a Phowys.

Gellir esbonio Caerdydd a'r Fro drwy ba mor gyffredin yw'r boblogaeth o fyfyrwyr sy'n gwyrdroi'r ffigyrau hyn. Wrth ystyried y boblogaeth uwchben 25 oed, mae Caerdydd yn dod o fewn 0.6% o'r cyfrwng. Fodd bynnag, mae'n bwysig ystyried bod gan fyrddau iechyd Aneurin Bevan a Bae Abertawe boblogaeth uwch na'r cyfartaledd o fyfyrwyr hefyd, felly mae'n bosibl y bydd gan y ddau fwrdd iechyd yma ddwysedd gofalwyr heb gynrychiolaeth ddigonol hefyd.

Mae Powys yn wynebu heriau unigryw oherwydd daeareg y rhanbarth a sut mae'r canolfannau poblogaeth yn lledaenu. Nid yw'n hysbys sut y gallai'r gwahaniaethau hyn fod wedi effeithio ar y boblogaeth o ofalwyr yn rhanbarth y bwrdd iechyd hwn.

Does dim gwahaniaeth ystadegol nodedig yn y gwahaniaeth rhwng gofalwyr benywaidd a gwrywaidd ar draws byrddau iechyd Cymru, sy'n dangos yn glir bod mater systemig yn bodoli, lle mae gofal yn cael ei ystyried yn fater i fenywod.

<u>Tabl 2</u>

| Bwrdd Iechyd | Nifer y gofalwyr o oedran gwaith (25-64) | Nifer y plant sy’n ofalwyr di-dâl (5-17) | Canran y gofalwyr sy’n gofalu mwy na 50 awr yr wythnos[37] |
|---|---|---|---|
| Aneurin Bevan | 41,150 | 1,685 | 35% |
| Betsi Cadwaladr | 30,595 | 1,305 | 35% |
| Caerdydd a’r Fro | 29,125 | 1,120 | 30% |
| Cwm Taf Morgannwg | 31,725 | 1,210 | 37% |

[37] Canran heb ei haddasu ar gyfer safoni yn ôl oedran

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hywel Dda | 26,115 | 1,100 | 34% |
| Powys | 8,550 | 340 | 30% |
| Bae Abertawe | 27,935 | 990 | 36% |

# Ffigyrau Awdurdodau Lleol

Mae'r ffigyrau a gyfrifir ar gyfer pob ardal awdurdod lleol (sir) yn seiliedig ar ffigyrau Cyfrifiad 2021, a lle mae canrannau wedi eu safoni[38] yn ôl oedran, oni nodir yn wahanol.

Tabl 3

| Sir | Nifer y Gofalwyr | Gwrywaidd | Benywaidd | Canran y gofalwyr yn y boblogaeth |
|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 7,240 | 3,080 | 4,160 | 11.3% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 15,310 | 6,470 | 8,845 | 11% |
| Caerffili | 19,065 | 8,150 | 10,935 | 11.4% |
| Caerdydd | 28,995 | 12,080 | 16,900 | 9.4% |
| Sir Gaerfyrddin | 20,385 | 8,595 | 11,800 | 11.1% |
| Ceredigion | 7,250 | 3,100 | 4,155 | 10.5% |
| Conwy | 11,630 | 4,790 | 6,840 | 10.1% |
| Sir Ddinbych | 10,160 | 4,250 | 5,920 | 10.9% |
| Sir y Fflint | 15,265 | 6,270 | 8,980 | 10.1% |
| Gwynedd | 9,990 | 4,065 | 5,920 | 8.9% |
| Ynys Môn | 6,745 | 2,830 | 3,920 | 9.9% |
| Merthyr Tudful | 6,205 | 2,535 | 3,665 | 11.2% |
| Sir Fynwy | 9,205 | 3,765 | 5,440 | 9.7% |
| Castell-nedd Port Talbot | 16,560 | 6,865 | 9,695 | 12.3% |
| Casnewydd | 14,970 | 6,150 | 8,825 | 10.3% |
| Sir Benfro | 12,885 | 5,290 | 7,590 | 10.6% |
| Powys | 13,465 | 5,595 | 7,865 | 10% |
| Rhondda Cynon Taf | 24,985 | 10,515 | 14,470 | 11.2% |
| Abertawe | 24,720 | 10,350 | 14,360 | 11.1% |
| Torfaen | 9,935 | 4,190 | 5,730 | 11.4% |
| Bro Morgannwg | 12,940 | 5,200 | 7,720 | 10.2% |

[38] https://blog.ons.gov.uk/2023/01/19/age-standardising-data-what-does-this-mean-and-why-does-it-matter/

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Wrecsam | 12,865 | 5,245 | 7,610 | 10% |

Castell-nedd Port Talbot yw'r unig sir yng Nghymru neu Loegr sydd â chanran poblogaeth gofalwyr o dros 12% (12.3%[39] ), gyda Chymru gyda mwy na hanner y siroedd (9 o 17), lle mae o leiaf 11% o'r boblogaeth yn darparu gofal di-dâl[40] . Dim ond un sir yn unig yng Nghymru (Gwynedd) sydd yn y 50% isaf o siroedd ar draws canran poblogaeth gofalwyr Cymru a Lloegr[41].

Mae hyn yn tynnu sylw at y ffaith bod gan Gymru gyfan boblogaeth fwy o ofalwyr na Lloegr ar lefel micro a macro.

Ym Mlaenau Gwent y mae'r nifer fwyaf o ofalwyr yn y rhanbarth sy'n gofalu am fwy na 50 awr yr wythnos (39%)[42], ond Castell-nedd Port Talbot oedd â'r gyfran fwyaf o bobl oedd yn darparu 50 awr neu fwy o oriau o ofal di-dâl yr wythnos ar sail poblogaeth (4.5%)[43]. Roedd y gyfran leiaf yn byw yn Sir Fynwy (29% neu 2.7%)[44].

Nid oes unrhyw wahaniaeth ystadegol nodedig o ran anghyfartaledd gofalwyr benywaidd i wrywaidd ar draws llinellau siroedd, sy'n dangos yn glir bod mater systemig yn bodoli, lle mae gofal yn cael ei ystyried yn fater i fenywod.

Tabl 4

| Sir | Nifer y gofalwyr o oedran gwaith (25-64) | Nifer y plant sydd yn ofalwyr di-dâl (5-17) | Canran y gofalwyr sy'n gofalu mwy na 50 awr yr wythnos [45] |
|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 4,975 | 210 | 39% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 10,395 | 415 | 36% |
| Caerffili | 12,955 | 480 | 37% |
| Caerdydd | 20,465 | 775 | 30% |
| Sir Gaerfyrddin | 13,295 | 555 | 36% |
| Ceredigion | 4,530 | 165 | 32% |
| Conwy | 2,810 | 115 | 36% |
| Sir Ddinbych | 6,570 | 340 | 37% |

[39] Tabl 3
[40] Tabl 3
[41] Tabl 3
[42] Tabl 4
[43] Tabl 4
[44] Tabl 4
[45] Canran heb ei haddasu ar gyfer safoni yn ôl oedran

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sir y Fflint | 10,350 | 435 | 32% |
| Gwynedd | 6,525 | 240 | 35% |
| Ynys Môn | 4,340 | 175 | 35% |
| Merthyr Tudful | 4,330 | 190 | 38% |
| Sir Fynwy | 5,990 | 255 | 29% |
| Castell-nedd Port Talbot | 11,200 | 455 | 38% |
| Casnewydd | 10,505 | 430 | 33% |
| Sir Benfro | 8,290 | 380 | 34% |
| Powys | 8,550 | 340 | 30% |
| Rhondda Cynon Taf | 17,000 | 615 | 37% |
| Abertawe | 16,735 | 535 | 34% |
| Torfaen | 6,725 | 310 | 35% |
| Bro Morgannwg | 8,660 | 345 | 31% |
| Wrecsam | 8,820 | 310 | 34% |

# Casgliad

Mae'r heriau y mae Cymru'n eu hwynebu wrth gefnogi gofalwyr di-dâl sy'n cefnogi 100,000au o bobl sy'n hŷn, sâl neu sydd ag anabledd yn amlwg yn fwy eang a chymhleth na dros y ffin yn Lloegr.

Ym mhob metrig cymharol a diffiniadwy, mae gan Gymru fwy o ofalwyr y pen sy'n darparu mwy o ofalu dwys ac sy'n fwy tebygol o fod o dan y llinell dlodi. Mae'n anochel y bydd hyn yn golygu lefel uwch o alw am wasanaethau, a'r angen i briodoli rhagor o adnoddau tuag at eu cefnogi.

Wrth ystyried sut i fynd i'r afael â chefnogi gofalwyr, dylid canolbwyntio ar yr effaith ddemograffig ac economaidd y mae gofal di-dâl yn ei gael ar Gymru.

Mae gofalu'n effeithio'n gyson ar fenywod yn fwy na dynion, felly mae darparu'r gefnogaeth gywir yn fater cydraddoldeb clir. Mae hyn yn rhywbeth y gellir ei ystyried ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ac ar draws pob grŵp oedran addysgol a gweithio, gan fod y rhaniad rhwng dynion a menywod mor gyson ar draws pob ffrynt.

Bydd dod o hyd i atebion yn cael effaith economaidd gadarnhaol hefyd, gan fod 1 o bob 7 o holl oedran y brif boblogaeth sy'n gweithio yn darparu rhyw lefel o ofal di-dâl, sy'n cynyddu i 1 o bob 5 wrth ystyried menywod rhwng 50 a 64 oed. Mae hyn yn creu budd ariannol i'r genedl ochr yn ochr â rheidrwydd moesol i gefnogi'r bobl sy'n darparu ar gyfer y rhai mwyaf agored i niwed.

# Rhagor o wybodaeth

Gofalwyr Cymru
5 Ynysbridge Court
Caerdydd
CF15 9SS

Ff 029 2081 1370
E info@carerswales.org
G: carerswales.org
@carerswales

Mae Gofalwyr Cymru yn rhan o Carers UK, elusen sydd wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (246329) ac yn yr Alban (SC)39307), a chwmni cyfyngedig drwy warant wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr (864097). Swyddfa gofrestredig 20 Great Dover Street, Llundain SE1 4LX

© Carers UK (Wales) 2023

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**